# Atodiad: Tabl o fentrau ac ymyriadau

## Tabl o fentrau

Mae'r tabl hwn yn atodiad i'n hadroddiad: *Gwella ymddygiad mewn carchardai: adolygiad thematig.* Yn ein gwaith maes ar gyfer yr adolygiad, daethom ar draws nifer o fentrau ac ymyriadau yr oedd carchardai'n eu defnyddio i annog ymddygiad cadarnhaol. Nid ydym wedi gwerthuso'r rhain yn ffurfiol, ond rydym wedi cynnwys crynodeb byr yn y tabl hwn er hwylustod i'r rheini sy'n ymchwilio i'r hyn a allai weithio yn eu sefydliad eu hunain, er mwyn iddynt allu cysylltu â charchardai perthnasol i gael gwybodaeth fanylach.

| Carchar | Enw | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Ffiniau, rheolau a gwobrau** | | |
| Rye Hill | Dyddiadur tystiolaeth bersonol (PED) | Gallai carcharorion lenwi ffurflen PED i dynnu sylw at rywbeth roedden nhw'n teimlo eu bod wedi'i wneud yn dda. Fel arfer, byddai hyn yn cael ei roi i weithiwr allweddol yn ystod sesiwn reolaidd i'w drafod ac yna gellid ei roi ar NOMIS.<br><br>Rhoddodd hyn gyfle da i'r carcharor gymryd perchnogaeth ar ei lwyddiant a'i gynnydd ei hun ac annog trafodaethau gyda staff am ymddygiad cadarnhaol, yn hytrach na chanolbwyntio ar ymddygiad negyddol. |
| Rye Hill, Oakwood a Drake Hall | Dathlu llwyddiant | Roedd gan nifer o'r carchardai y buom yn ymweld â nhw gynllun enwebu lle gallai staff enwebu carcharor a oedd, yn eu barn nhw, wedi cyflawni rhywbeth gwerth rhoi sylw iddo. Roedd y carchardai hyn yn cynnwys y teuluoedd yn y digwyddiadau dathlu a oedd yn helpu'r carcharor i deimlo'n falch o'u cyflawniadau.<br><br>Roedd Rye Hill ac Oakwood hefyd yn gallu rhannu hyn ar eu blog carchar. |
| Oakwood | Cynllun gwobrwyo ar sail pwyntiau | Roedd Oakwood yn gweithredu cynllun gwobrwyo ar sail pwyntiau gyda chymelliadau gweladwy a chefnogaeth gan gymheiriaid i gael carcharorion i frig y cynllun. |
| Warren Hill a Buckley Hall | Dyfarniadau ad-dalu cymunedol | Yn hytrach na chosbau traddodiadol fel dileu breintiau neu enillion, roedd y carchardai hyn wedi cyflwyno cosbau adferol a oedd yn cynnwys cosbau codi sbwriel, neu atal cosb os oedd y carcharor yn ymrwymo i weithio gyda'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau. |

| | | |
|---|---|---|
| Oakwood | Adeiniau gwobrwyo | Roedd gan Oakwood nifer o adeiniau gwobrwyo. Yn un o'r adeiniau uwch y mae galw mawr amdano, roedd gan garcharorion lefelau isel o oruchwyliaeth, cyfleusterau cegin da a chawsant eu datgloi tan 9pm.<br><br>Roedd gan Oakwood ddwy adain sylfaenol hefyd a oedd yn cynnwys ymyriadau a mentora cymheiriaid. Y nod oedd dychwelyd carcharorion i'w hadeiniau safonol o fewn pedair wythnos. |
| Warren Hill | Rheoli ymddygiad uwch (EBM) | Roedd yr holl garcharorion yn Warren Hill yn cael eu rheoli o dan y cynllun EBM yn hytrach na fframwaith cymelliadau traddodiadol. Roedd camau EBM yn wirioneddol ysgogol gan gynnwys mynediad i siop y carchar, caffi ac ymweliadau preifat.<br><br>Darparodd yr EBM ffordd i garcharorion ddangos sut yr oeddent wedi lleihau eu risg ac fe'i rheolwyd gan reolwyr troseddwyr yn y carchar (POMs). Adolygodd seicolegydd dan hyfforddiant yr holl newydd-ddyfodiaid ar gyfer adolygiad o ffeiliau achos, a defnyddiodd gweithwyr allweddol y wybodaeth hon ar gyfer trafodaethau manwl.<br><br>Cyn i garcharorion symud i gam gwahanol o'r cynllun, byddai bwrdd aml-asiantaeth yn cael ei gynnal lle gallai'r carcharorion a'r staff drafod eu cynnydd a datblygu amcanion. Roedd hyn yn fwy personol na'r cynllun cymelliadau arferol ac yn ysgogiad go iawn i garcharorion. |
| **Cyfundrefnau cadarnhaol a phwrpasol** | | |
| Oakwood | Gweithdai arbenigol | Roedd gan Oakwood weithdai arbenigol i helpu i annog carcharorion i ymgysylltu a symud ymlaen. Er enghraifft, cynhaliwyd gweithdy ar gyfer carcharorion dan 30 oed. Cafodd carcharorion gymorth ychwanegol gan fentoriaid cymheiriaid yn ogystal ag ymyriadau eraill fel amseroedd gweithio byrrach a sesiynau campfa, wedi'u teilwra i anghenion y grŵp.<br><br>Roedd gweithdy gwaith coed nodedig hefyd lle'r oedd carcharorion yn cyflawni rolau rheoli allweddol ac yn gwneud cynhyrchion i'w gwerthu. Roedd y gweithdy'n rhan o sesiwn gwaith ar dasg – felly aeth canran o'r elwi gynilion carcharorion ar gyfer adeg eu rhyddhau. Rhoddwyd rhan o'r elw hefyd i elusen. |

| | | |
|---|---|---|
| Rye Hill | Digwyddiadau arbennig | Cynhaliodd Rye Hill raglen o ddigwyddiadau fel diwrnod dathlu Jamaica, a digwyddiad technoleg. Cafodd y rhain eu ffilmio a'u dangos ar deledu'r carchar i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad. |
| Rye Hill, Drake Hall a Buckley Hall | Gweithgareddau cyfoethogi | Roedd sawl carchar yn cynnal gweithgareddau rheolaidd ar benwythnosau a gyda'r nos fel nosweithiau gemau, Parkrun, cynllun Dug Caeredin, dosbarthiadau celf, cylchedau, nosweithiau ffilm a dathliadau pen-blwydd. |
| Drake Hall | Academi hyfforddi Halfords | Roedd y gweithdy a gynhaliwyd gan Halfords yn Drake Hall yn swydd yr oedd galw mawr amdani oherwydd ei bod yn cynnig gwaith sgiliedig â chyflog uchel. Roedd nifer o enghreifftiau o fenywod yn cael eu cyflogi gan Halfords ar ôl cael eu rhyddhau, ac fel cynllun cenedlaethol roedd yn cynnig cyfleoedd i fenywod lle bynnag y cawsant eu rhyddhau.<br><br>Roedd hefyd yn rhan o ddigwyddiad seiclo blynyddol a gafodd dderbyniad da. |
| **Helpu carcharorion i baratoi ar gyfer rhyddhau** | | |
| Rye Hill | NECST – Tîm Cymorth Cymuned Amgylchedd Newydd | Roedd tîm o garcharorion tymor hir o'r enw NECST wedi dylunio rhaglen o'r enw 'deall eich dedfryd'. Roedd hyn yn rhannu dedfrydau hir yn flociau i helpu i strwythuro, canolbwyntio a rhannu eu cynlluniau adsefydlu ac ailsefydlu yn gamau. Roedd llyfrynnau o ansawdd uchel wedi'u dylunio'n dda yn cefnogi'r rhaglen. |
| Abertawe | Hyb Cyflogaeth | Roedd yr hyb yn hwyluso cyfarfodydd gyda charcharorion ar wahanol gamau yn eu dedfryd. Ar ôl cyrraedd, roedd carcharorion yn cyfarfod â'r Adran Gwaith a Phensiynau i drafod opsiynau cyflogaeth. Ddeuddeng wythnos cyn rhyddhau, gallent fynychu bwrdd rhyddhau ac elwa o gymorth drwy'r giât mewn lolfa ymadael. |
| Warren Hill | Adeiladau cymeradwy | Roedd y carchar wedi adeiladu adeilad cymeradwy 'ffug' ar y safle er mwyn i garcharorion gael profiad o sut beth fyddai byw'n annibynnol, ond gydag amodau, ar ôl cael eu rhyddhau. |
| **Carchardai fel cymunedau** | | |
| Rye Hill ac Oakwood | Mentrau dan arweiniad cymheiriaid (PLI) | Cyfrannodd PLI at gymuned y carchar a helpu cyfranogwyr i ddysgu sgiliau cyfrifoldeb, trefnu ac arwain.<br><br>Roedd pob PLI wedi'i wreiddio yn nogfennau strategol y carchardai. |

| | | |
|---|---|---|
| Holme House | Cwrs cyflawniad a datblygiad personol (PADS) | Mae PAD yn gwrs hyfforddiant corfforol dwys wythnos o hyd sy'n cael ei gynnal gan y gampfa. Roedd yn datblygu amrywiaeth o sgiliau fel adeiladu tîm, gwytnwch, lles meddyliol ac fe'i cefnogwyd gan fentoriaid. |
| Oakwood | Grŵp ymyrraeth sylfaenol (BIG) | Arweiniodd mentoriaid cymheiriaid BIG amrywiaeth o ymyriadau wedi'u targedu at garcharorion ar lefel sylfaenol, yn enwedig carcharorion iau a'r rheini sydd wedi'u lleoli ar yr unedau sylfaenol. |
| Buckley Hall | Mentoriaid LARM | Datblygodd grŵp o garcharorion tymor hir gwrs mentora ochr yn ochr â rhaglenni a staff iechyd meddwl o'r enw 'Dysgu, atebolrwydd, cyfrifoldeb a rheoli emosiynau yn y carchar' (LARM). Nod y cwrs oedd helpu carcharorion i ddatblygu sgiliau i ddelio â sefyllfaoedd anodd. |
| Abertawe | Uned cyn-filwyr | Cafodd cyn-filwyr eu hyfforddi fel mentoriaid cymheiriaid a oedd yn byw ochr yn ochr â charcharorion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. |
| Buckley Hall | Defnydd effeithiol o waith allweddol | Roedd pedwar gweithiwr allweddol llawn amser, wedi'u clustnodi, yn darparu cymorth rheolaidd ac ystyrlon i garcharorion yr ystyriwyd bod arnynt angen cymorth ychwanegol: oedolion ifanc, pobl ifanc sy'n gadael gofal, carcharorion IPP a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth ychwanegol. |
| **Bwyd, coginio a bwyta cymunedol** | | |
| Rye Hill | Ready, steady, cook | Cynhaliodd y carchar gystadleuaeth goginio rhwng wyth carcharor, ac fe wnaethon nhw eu ffilmio a'u dangos ar setiau teledu'r carcharorion. Yna, gellid dod â'r bwyd a gafodd ei goginio yn ôl i'r adeiniau a'i rannu. |
| Oakwood, Drake Hall, Buckley Hall, Warren Hill, Full Sutton | Hunan-arlwyo | Yn Oakwood, gallai carcharorion ar lefelau cymhelliant aur a phlatinwm fyw ar adain gyda chyfleusterau hunan-arlwyo da. Roeddent yn gallu prynu bwyd gan gyflenwyr lleol a mewnol a choginio bwyd gyda'i gilydd.<br><br>Yn Drake Hall, roedd ceginau wedi'u hadnewyddu ar gael ar bob adain.<br><br>Yn Warren Hill, gallai carcharorion ar gam 3 monitro ymddygiad uwch (EBM) dreulio amser gyda'r teulu mewn ystafell breifat bwrpasol gyda chegin fach er mwyn iddynt allu paratoi bwyd a bwyta fel teulu. Roedd gardd hefyd lle gallent dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gallai rhai carcharorion ennill y fraint werthfawr o optio allan o brydau bwyd yn y carchar. Cawsant gyfran fach o gyllideb fwyd y carchar i brynu eu bwyd ffres eu hunain y tu allan i'r rhestr ffreutur arferol. Roedd y fraint hon ar gael i nifer o garcharorion yn Oakwood. Yn Warren Hill, roedd ar gael ar gam tri y cynllun EBM ac roedd yn helpu i gymell carcharorion i symud ymlaen drwy eu dedfryd. Yn Full Sutton, roedd ar gael i nifer fach o garcharorion uwch. |
| Drake Hall | Siop goffi | Roedd gan y carchar siop goffi yn y llyfrgell a oedd yn cael ei staffio gan garcharorion. Roedd y siop yn cael ei defnyddio'n bennaf gan staff, ond gallai carcharorion ar lefel uwch y cynllun cymell brynu eitemau ddwywaith y mis hefyd. |
| Warren Hill | Siop, caffi a hunanarlwyo | Roedd gan garcharorion ar gam 2 a 3 monitro ymddygiad uwch (EBM) fynediad at ganolfan gymunedol gyda chaffi a siop ar ffurf archfarchnad i brynu bwyd ychwanegol. |
| Full Sutton | Siop goffi | Roedd siop goffi ar gael yn agos at y gweithdai. Gallai carcharorion brynu cardiau coffi. Roedd staff y llyfrgell a staff addysg yn cynnig cerdyn coffi yn wobr fel cymhelliant i garcharorion gymryd rhan mewn cyrsiau darllen ac addysg. |
| **Cynnwys y teulu** | | |
| Rye Hill ac Oakwood | Ymweliadau ar gyfer y rheini nad ydynt yn cael ymweliadau gan deulu a ffrindiau. | Gallai carcharorion na chawsant ymweliadau gan deulu a ffrindiau wneud cais am ymweliad carcharor-i-garcharor gyda ffrind ar adain arall. Roedd hyn yn digwydd yn y neuadd ymweliadau lle gallent hefyd gael mynediad i'r siop fwyd. |
| Warren Hill | Ymweliadau preifat | Cafodd carcharorion ar gam 3 monitro ymddygiad uwch (EBM) y cyfle i dreulio amser gyda'r teulu mewn lle preifat pwrpasol gyda soffa, cegin fach, teganau plant a theledu. |
| Abertawe | Sesiwn babanod a phlant bach | Gallai carcharorion â phlant iau gael mynediad at sesiwn fwy hamddenol unwaith y mis mewn ystafell ymweliadau ar wahân. |
| Abertawe | Coffi a sgwrs | Gallai teuluoedd carcharorion gwrdd â'r llywodraethwr unwaith y mis i fynegi unrhyw broblemau yr oeddent yn eu hwynebu. |
| Oakwood | Uned deulu | Gallai carcharorion yn yr uned deuluol yn Oakwood wneud cais am sesiwn ymweld estynedig gyda'u teuluoedd i goginio a bwyta pryd gyda'i gilydd.<br><br>Roedd arweinwyr hefyd wedi sicrhau cyllid nawdd i |

| | | |
|---|---|---|
| | | adnewyddu grŵp o ystafelloedd nad oeddent yn cael eu defnyddio i greu mannau ymweld preifat dan oruchwyliaeth teledu cylch cyfyng. Y rhain oedd yr ‘ymweliadau lolfa’, ac roedd thema i bob ystafell: er enghraifft cafodd un ei haddurno fel ystafell fyw i’r teulu gyda soffas. |
| Holme House | Nepacs | Gallai carcharorion ar y lefel cymhelliant uwch brynu pecynnau o ddanteithion gan Nepacs ar gyfer aelodau o’r teulu a oedd yn dod i’w gweld. Roedd hwn yn gymhelliant poblogaidd a rhad a oedd yn cydnabod bod teuluoedd weithiau’n cael trafferth talu costau ymweliadau â charchardai. |
| Oakwood | Clwb Gwaith Cartref | Gallai carcharorion fynychu clwb gwaith cartref, nosweithiau rhieni a chlwb i blant gyda’u plant, gan gydnabod pwysigrwydd rhoi’r gallu i garcharorion gyflawni tasgau arferol gyda’u plant er gwaethaf eu cyfnod yn y carchar. |
| **Ymateb i anghenion cymhleth** | | |
| Full Sutton | Uned cefnogi pontio a galluogi cynnydd (STEP) | Roedd yr uned Cefnogi Pontio Galluogi Cynnydd (STEP) yn Full Sutton yn uned breswyl 18 gwely ar gyfer carcharorion a oedd yn gadael yr uned wahanu nad oeddent yn barod i ddychwelyd i leoliad arferol. Roedd yr ymyriad STEP yn rhan o strategaeth ehangach ystâd diogelwch uchel a thymor hir (LTHSE) i reoli a helpu carcharorion ag anghenion cymhleth i wneud cynnydd drwy eu dedfryd. Mae’r staff yn gosod nodau hylaw i garcharorion, gan eu cymell i symud ymlaen drwy fodel rheoli ymddygiad sy’n cynnwys pum haen. Roedd tîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys seicolegwyr, carcharorion a oedd yn cael eu cefnogi, yn goruchwylio gwaith ar yr uned yn dda. Cawsom enghreifftiau rhagorol o garcharorion yn gwneud cynnydd da yn dilyn ymyriad ar yr uned STEP. |
| Rye Hill | Cŵn Anifeiliaid anwes fel therapi (PAT) | Roedd staff yn gallu dod â’u cŵn i’r gwaith i weithredu fel cŵn PAT (unwaith iddynt gael eu hasesu’n briodol) ac roedd y staff a’r carcharorion yn gwerthfawrogi hyn. Roedd swyddogion yn cerdded o amgylch yr adeiniau a’r tiroedd gyda’u cŵn bob dydd. Gallai carcharorion ryngweithio â chŵn yn ystod amser cyswllt neu symudiadau. |
| Buckley Hall | The Hive | Roedd y carchar wedi creu hyb cymunedol o’r enw ‘The Hive’ a oedd yn cael ei redeg gan y tîm llesiant. Roedd y cyfleuster yn cynnig ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau therapiwtig gyda chefnogaeth mentoriaid cymheiriaid. |

| | | |
|---|---|---|
| Buckley Hall | Gweithdy malu paledau | Nododd y tîm iechyd meddwl garcharorion a oedd angen gweithgarwch corfforol i ‘ollwng stêm’. Roedd y carcharorion hyn yn malu paledau pren a oedd wedyn yn cael eu defnyddio i wneud dodrefn ar gyfer elusen. |
| Abertawe | Yr Harbwr | Sefydlwyd prosiect yr Harbwr gan yr arweinydd niwroamrywiaeth ar gyfer y rheini a allai ei chael hi’n anodd cymryd rhan mewn addysg neu waith. Roedd gan garcharorion fynediad at ystafell synhwyraidd ragorol drws nesaf i ystafell ddosbarth fach lle buont yn cymryd rhan mewn gwersi i ddiwallu eu hanghenion dysgu.<br><br>Ochr yn ochr â hyn, roeddent hefyd yn cynnal amserlen o weithgareddau a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth ofalgar, cŵn PAT, ymarfer mewn grwpiau bach a chwrs hunan-reoleiddio. Roedd carcharorion hefyd yn cael eu cefnogi gan grŵp o fentoriaid niwroamrywiaeth cymheiriaid. |
| **Cyfathrebu** | | |
| Rye Hill ac Oakwood | Hyb cyfryngau | Roedd yr hyb cyfryngau yn cyflogi carcharorion i gynhyrchu cynnwys amlgyfrwng o ansawdd uchel, gan gynnwys blogiau fideo dyddiol a phodlediadau ar gyfer carcharorion. Defnyddiodd arweinwyr hyn i gyfathrebu, dathlu cyflawniadau a hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol. |
| Oakwood a Rye Hill | Cyngor carchar effeithiol | Cyflwynodd carcharorion â syniadau i wella canlyniadau a gwasanaethau yn y carchar achos busnes ffurfiol i’r cyngor carchar a oedd yn ystyried ymarferoldeb rhoi eu syniadau ar waith.<br><br>Yn y ddau garchar, cafodd cyfarfodydd y cyngor eu ffilmio a’u darlledu drwy setiau teledu carcharorion a oedd yn helpu i gynyddu tryloywder. |
| Full Sutton | Cylchlythyr misol a chyngor carchar | Cynhyrchodd y llywodraethwr gylchlythyr misol a oedd yn cynnwys diweddariadau gan y llywodraethwr a'r cyngor carchar. Gallai carcharorion hefyd gyflwyno cwestiynau bob mis a oedd yn cael eu hateb gan y llywodraethwr. |
| Warren Hill | Cylchlythyrau cymunedol a llyfryn cynefino | Roedd y carchar yn defnyddio gwybodaeth ysgrifenedig liwgar a oedd wedi cael ei chynllunio’n dda. Roedd hyn yn cynnwys cylchlythyrau i hyrwyddo gweithgareddau cymunedol a llyfryn cynefino a oedd yn nodi’r ffiniau a’r disgwyliadau ar gyfer carcharorion er mwyn creu cymuned fwy diogel. |